Yn cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

Rhifyn 322 (Cymru) - 3 Mai 2022

Etholiadau mis Mai 2022: nodyn atgoffa o'r canllawiau a'r cymorth sydd ar gael trwy gydol wythnos yr etholiad

Ym Mwletin 317 fe roesom fanylion am ein gwasanaeth cyngor ffôn tu allan i oriau swyddfa er mwyn ymdrin ag unrhyw ymholiadau gweinyddu etholiadol brys yn y cyfnod cyn ac ar ôl yr etholiadau ar 5 Mai 2022. Dyma nodyn i atgoffa sut y gallwch gysylltu â ni ar y diwrnod pleidleisio a thros y dyddiau dilynol.

Y diwrnod pleidleisio (dydd Iau 5 Mai) - Rhwng 7:00am a 5:30pm - ffoniwch 0333 103 1929. Y tu allan i'r oriau hyn - ffoniwch 07824 464350. Bydd y rhif hwn hefyd yn cael ei staffio trwy gydol y nos ar gyfer unrhyw ymholiadau brys.

Dydd Gwener 6 Mai - Rhwng 7:00am a 5:30pm - ffoniwch 0333 103 1929. Y tu allan i'r oriau hyn - ffoniwch 07824 464350.

Dydd Sadwrn 7 Mai a dydd Sul 8 Mai - Ffoniwch 07824 464350. Bydd y rhif hwn hefyd yn cael ei staffio trwy gydol y penwythnos ar gyfer unrhyw ymholiadau brys.

Roeddem hefyd am achub ar y cyfle hwn i ddymuno pob lwc i chi at y dyddiau nesaf, ac i ddiolch i chi a'ch staff am yr holl waith caled rydych chi wedi ei wneud i baratoi at yr etholiadau. Mae'n hawdd iawn cymryd ein democratiaeth yn ganiataol ond ni fyddai'n bosibl heb ymdrechion pawb sydd yn ymwneud â chaniatáu ein bod ni i gyd yn gallu pleidleisio yn ddiogel ac yn hyderus, ac mae'r pleidleisiau hynny wedyn yn cael eu cyfrif mewn ffordd sy'n darparu canlyniadau sy'n gywir ac y gellir ymddiried ynddynt.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
www.electoralcommission.org.uk
© Y Comisiwn Etholiadol 2022

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Etholiadau mis Mai 2022: nodyn atgoffa o'r canllawiau a'r cymorth sydd ar gael trwy gydol wythnos yr etholiad

Nodyn i atgoffa sut mae cysylltu â'r Comisiwn am ganllawiau a chymorth trwy gydol wythnos yr etholiad.

Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn. Gallwch hefyd danysgrifio i'n Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommissio

n.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddat-danysgrifio unrhyw bryd.